



THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION

CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefvdlwvd 1943 Registered Charity/Flusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2020 i 31 Rhagfyr 2020

Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd

CCB 2020)

Is-Gadeirydd

Trysorydd

Ysgrifennydd Cyffredinol

David John Bowles tan CCB 2020 (ail-etholwyd yn Ymddiriedolwr

Lynda Christie (etholwyd CCB 2020)

Jill Wheeler (etholwyd CCA 2019)

Graham Wheeler (ailetholwyd CCB 2017) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth 2014

Jenny Shaw (etholwyd CCB 2020)

Christopher Clarke (etholwyd CCB 2016)

Peter Elvis (etholwyd CCB 2020 ymddiswyddodd 15.06.20)

Gordon Lumby (etholwyd CCB 2017, ymddeolodd CCB 2020)

Keith Davies (etholwyd CCB 2017)

Rachel Kellaway (cyfetholwyd Mehefin 2018)

Caroline Mullinex (etholwyd CCB 2020)

Karen Pratt (cyfetholwyd Medi 2020)

Swyddogion:

Llywydd

Jenny Shaw (etholwyd CCA 2019 / ymddiswyddodd CCB 2020)

Gwag

Is-lywyddion

Fred Eckton

Ysgrifennydd Aelodaeth

David Kennedy

Ysgrifennydd Cofnodion

Jill Hill

Ysgrifennydd y Cynulliad

Gwag

Ysgrifennydd Arholiadau

Caroline Mullinex

Swyddog Asesiadau Sylfaenol

Nicola Oulton

Rheolwr y Wefan

Nigel Dailey (bu farw ym mis Medi 2020)

Alison Mason (penodwyd Hydref 2020)

Golygydd

Nigel Dailey (bu farw ym mis Medi 2020)

Gwag

Is-olygydd

Elin Meek

Prawf ddarllynydd

Chris Clarke

Swyddog Technegol

Wally Shaw

Swyddog Yswiriant

John Bowles

Swyddog Iechyd a Diogelwch

John Pilgrim

Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg

Gwag

Archif CGC

Nigel Dailey (bu farw ym mis Medi 2020)

Karen Pratt

Swyddog COLOSS CGC

Garth Evans

Swyddog IMYB

Richard Petts

Swyddog Cydlyn Lladrata

Gwag

Swyddog Ysgolion

Emma Davies

Mae pob un o ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion

parhaus ar ran y Gymdeithas.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles y cyhoedd.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenynwyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
 - i. gyhoeddi llenyddiaeth,
 - ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
 - iii. hybu hyfforddi a chymhwysio gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenyn yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

Gweinyddu

Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd y rhan hon o'r adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC dair gwaith (ym misoedd Mawrth, Mehefin a Thachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafeirws ar grynhoi mewn grwpiau, cynhaliwyd cyfarfodydd mis Mehefin a mis Tachwedd yn rhithiol. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 63% (12) o'r Cymdeithasau sy'n Aelodau o CGC wedi'u cynrychioli ac at ei gilydd mynychodd 74% (14) Cymdeithas o leiaf un cyfarfod. Dosbarthwyd cofnodion pob cyfarfod y Tîm Rheoli drwy Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar 6 Mawrth, 26 Mehefin a 6 Tachwedd yn 2021.

Cyfarfu'r Tîm Rheoli wyth gwaith yn 2020 ond, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, cyfarfod mis Ionawr yn unig y bu'n bosibl ei gynnal wyneb yn wyneb. Bydd y Tîm Rheoli'n cwrdd o leiaf bedair gwaith yn 2021, gyda'r cyfarfod cyntaf ar 22 Ionawr. Mae'r lleoliad a'r dyddiad ar gyfer cyfarfodydd y Tîm Rheoli'n adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl yn gallu mynychu a bod cyn lleied o gostau teithio ag sy'n bosibl. Yn dilyn treial tri mis am ddim o drwyddedau Weminar a chyfarfodydd rhithiol, prynodd y Tîm Rheoli drwyddedau a fydd yn rhedeg tan ddiwedd mis Hydref 2021. Mae'r trwyddedau hyn wedi bod ar gael i Aelod-Gymdeithasau CGC ac yn ystod y flwyddyn, mae wyth Cymdeithas wedi defnyddio'r trwyddedau i gynnal cyfarfodydd amrywiol.

Lle mae'n briodol i'w rolau, gwahoddwyd swyddogion CGC nad ydyn nhw'n Ymddiriedolwyr i fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn ystod 2020 er mwyn helpu gyda gwaith yr ymddiriedolwyr.

Mae polisiâu CGC wedi'u diweddarau a'u diwygio a chytunwyd ar bolisi'r Cyfryngau Cymdeithasol. Gofynnir i CCB 2021 basio diwygiadau i Gyfansoddiad CGC sy'n caniatáu yn eglur i gyfarfodydd CGC gael eu cynnal yn rhithiol neu drwy delegynadleda. Nid y bwriad yw i'r newid hwn, os caiff ei basio, olygu na fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal mwyach. Mae'r ddarpariaeth yno i alluogi gwaith CGC i barhau hyd yn oed pan nad yw cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosibl.

Yswiriant: Mae sicrwydd Yswiriant CGC yn seiliedig ar nifer o amodau gan gynnwys yr angen am dalu ffioedd y pen ar y pryd. Mae'r Cymdeithasau i fod i dalu ffioedd y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn ond rhoddir lwfans ond i'r holl arian dyledus gael ei dderbyn erbyn 31 Mawrth yn y

flwyddyn honno. Atgoffir Aelod-Gymdeithasau fod angen i'r taliad gael ei wneud yn brydlon. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Yswiriant ac Iechyd a Diogelwch yn nes ymlaen yn y ddogfen.

Cronfeydd Ariannol: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau fel y wefan, cyhoeddiadau a llyfrynnau. Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Llywodraethiant: Yn CCB 2020, ymddeolodd Gordon Lumby fel ymddiriedolwr. Penodwyd Jenny Shaw i safle ymddiriedolwr Ysgrifennydd Cyffredinol a daeth Caroline Mullinex yn ymddiriedolwr gyda chyfrifoldeb dros y Pwyllgor Dysgu a Datblygu. Ymddiswyddodd Peter Elvis fel ymddiriedolwr ym mis Mehefin 2020 ac ym mis Medi, cyfetholwyd Karen Pratt fel ymddiriedolwr.

Yn drist, bu farw Nigel Daily, Golygydd, Gwefeistr ac Archifydd CGC, ym mis Medi. Gwirfoddolodd Karen Pratt i ymgymryd â rôl yr Archifydd a ymgymerodd David Kennedy yn garedig iawn â rôl gwefeistr dros dro. Yn niwedd mis Hydref penodwyd Alison Mason fel y Gwefeistr newydd. Gweithiodd tîm golygyddol Gwenynwyr Cymru gyda dylunydd graffeg gan fod swydd y Golygydd yn wag, i gyhoeddi rhifyn gaeaf 2020. Mae'r tîm golygyddol yn cynnwys Cadeirydd CGC, y Dirprwy Gadeirydd, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Ymddiriedolwr Dysgu a Datblygu, Swyddog Ysgolion a Phrawfddarlennydd.

Ar ddiwedd 2020 ymddeolodd David Kennedy fel Ysgrifennydd Aelodaeth ar ôl bron i bedair blynedd yn y swydd. Penodwyd Trish Calderbank i'r rôl ym mis Awst ac mae hi wedi gweithio gyda David i sicrhau bod y trosglwyddo'n digwydd mor esmwyth ag sy'n bosibl.

Mae tair swydd wedi bod yn wag drwy'r flwyddyn: Ysgrifennydd Digwyddiadau, Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg a Chydlynnydd Lladrata. Cytunwyd i beidio â hysbysebu rolau Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg a Chydlynnydd Lladrata ond i gynnwys eu swyddogaethau mewn rolau sy'n bodoli'n barod. Yr Ysgrifennydd Cyffredinol fydd y cyswllt cyntaf ar gyfer y ddwy rôl.

Aelodaeth: Mae gan CGC un deg naw o Aelod-Gymdeithasau sy'n cynrychioli 1,864 o Aelodau Anuniongyrchol yn ogystal ag un grŵp Aelod Arbenigol. Fel rhan o'r aelodaeth y pen a godir ar bob Aelod-Gymdeithas, mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae tri deg naw Aelod Unigol ac wyth Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Yn dilyn trafodaeth ag Yswiriant Clefydau Gwenyn (BDI), mae CGC wedi cytuno i gynnig y system rheoli aelodaeth, eReturn2 (eR2) i aelod-gymdeithasau. Datblygwyd y system gan Purely Solutions ar gyfer BDI ar gais BBKA ac mae'n cynnwys prosesu yswiriant BDI. Mae ar wahân i'r system ar-lein (eReturn1) sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan y rhan fwyaf o gymdeithasau gwenyna Cymru ar hyn o bryd i drefnu yswiriant eu haelodau. Mae'r system yn gweithredu mewn system 'gwmwl' sy'n cael ei rhoi gan Microsoft.

Mae'r system yn gadael i bob Cymdeithas ddiffinio set o feysydd (*fields*) cofnodion aelodaeth sy'n addas i'w haelodau, gan gynnwys yr holl wybodaeth aelodau, hyfforddiant, tanysgrifio, rôl, a'r opsiynau eraill y mae angen iddyn nhw ei chofnodi. Yr egwyddor yw bod yr holl ddata aelodaeth mewn un system ac ar gael i bwy bynnag y mae'r Gymdeithas yn rhoi mynediad iddo. Does dim angen unrhyw gofnodion taenlen neu gronfa ddata eraill. Hefyd mae'n gadael i aelodau

Cymdeithasau ac Unigol reoli eu tanysgrifiadau eu hunain ac, os ydyn nhw eisiau, gwneud taliadau ar-lein.

Mae'r system eR2 y bydd CGC yn ei chynnig yn un hollol ar wahân ac yn annibynnol ar yr un y bydd BBKA yn ei defnyddio. Bydd Trish Calderbank, ysgrifennydd aelodaeth CGC, yn cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd i helpu'r Cymdeithasau sydd eisiau defnyddio'r system hon i'w gosod ac i drosglwyddo eu cofnodion yn ystod 2021. Mae BDI yn tynnu system eR1 yn ôl.

Gwefan: Cytunwyd y bydd Alison Mason, y Gwefeistr, yn creu gwefan CGC newydd tra mae David Kennedy yn parhau i gynnal a chadw'r hen un. Mae'r gwaith ar y wefan newydd yn mynd yn ei flaen yn dda a dylai ddod yn lle'r wefan newydd yn ystod hanner cyntaf 2021.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Llwyddwyd i gyhoeddi pob un o'r pedwar rhifyn chwarterol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ddiolchgar i'r lluo o aelodau CGC sydd wedi rhoi erthyglau a ffotograffau i'r cylchgrawn. Mae hen gopïau o'r cylchgrawn ar gael i'w lawrlwytho o wefan CGC.

Cyhoeddiadau: Diweddarwyd y llyfryn 'Canllaw'r Wenyfa i Reoli Heidiau' a'i anfon allan i bob aelod gyda rhifyn y gwanwyn y cylchgrawn. Argraffwyd copïau ychwanegol, gyda mân newidiadau, o'r llyfryn 'Dulliau Syml o Gynyddu' yn gynnar yn 2020. Ysgrifennwyd a chyhoeddwyd chweched llyfryn CGC, 'Bwydo Gwenyn' a'i ddosbarthu i bob aelod gyda rhifyn hydref Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru. Mae'n bosibl lawrlwytho pob un o'r chwe llyfryn o wefan CGC. Mae'n bosibl casglu copïau wedi'u hargraffu yng Nghyfarfodydd y Cyngor. Yn ystod y cyfyngiadau ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb, gall Swyddogion Hyfforddi Cymdeithasau ofyn i gael cyflenwadau o lyfrynau wedi'u hanfon atynt i'w rhoi i wenywnwyr newydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2020 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru'n cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC isod.

Bee Health Advisory Forum (UK): Mae'r Bee Health Advisory Forum (BHAf) yn gyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth y DU lle mae cynrychiolwyr o bob Cymdeithas Wenyfa dros Brydain, yn ogystal â NBU, APHA, Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, Milfeddygon gwenyn ac ati. Mae'n cynnig cyfle i drafod a dylanwadu ar faterion cyfredol ac arfaethedig a all fygwth lles ein gwenyn. Mae'r eitemau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wedi'u cynnwys yn fwy manwl yn Adroddiad y Swyddog Technegol.

Fforwm Peillwyr Cymru: Fforwm o dan nawdd Llywodraeth Cymru yw hwn sy'n dod ag amrywiaeth o grwpiau ynghyd sy'n cynrychioli mudiadau sydd â diddordeb mewn diogelu'r amgylchedd gwyllt a gwella rheoli tir er lles peillwyr o bob math, yn amrywio o ieir bach yr haf, pryfed hofran i gacwn a gwenyn mêl. Rydyn ni'n credu y bydd beth bynnag sy'n dylanwadu ar y dirwedd gorfforol a rheolaeth y tir i unrhyw beilliwr, ac yn ei wella, hefyd o fudd i wenywn mêl. Mae'r fforwm yn cwrdd ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn, fel arfer yn y Drenewydd.

CONBA: Mae Cymdeithasau Wenyfa Cymru, Lloegr, yr Alban ac Ulster yn ogystal â Chymdeithas Ffermwyr Wenyfa (Bee Farmers Association) gyda'i gilydd yn ffurfio CONBA (Council of National Beekeeping Associations) sy'n cefnogi buddiannau pob gwenynwr a wenyfa yn y DU. Mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu strategaethau ar y cyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynlluniau'r llywodraeth, yn rhai cartref ac Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, John Bowles yw cadeirydd CONBA ar ran CGC. Fel arfer, mae CONBA yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb a sawl gwaith drwy delegynadleda.

NDB: Ymunodd Arweinydd Dysgu a Datblygu â Phanel Ymgynghorol NDB pan gwrddodd ym mis Ebrill i ystyried a thrafod ffyrdd y gallai NDB gefnogi gwenynwyr yn gyffredinol. Mae'r NDB yn awyddus i godi ei broffil a gobeithio i annog mwy o ymgeiswyr sydd wedi'u cymhwyso'n addas ar gyfer yr Arholiad NDB.

Cyfarfodydd a Fynychwyd yn 2020

Cyfarfodydd Mewnol CGC yn 2020:

- 24 Ion – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – Machynlleth
- 7 Mawrth CCB, Cyfarfod Cyngor – Machynlleth
- 14 Ebrill – Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 24 Ebrill – Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 1 Mehefin – Pwyllgor Dysgu a Datblygu – rhithiol
- 19 Chwe – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 27 Mehefin – Cyfarfod Cyngor – rhithiol
- 8 Gorffennaf – Pwyllgor Dysgu a Datblygu – rhithiol
- 20 Gorffennaf – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 3 Medi – Pwyllgor Dysgu a Datblygu – rhithiol
- 18 Medi – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 14 Hydref – Y Tîm Golygyddol – rhithiol
- 30 Hydref – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 5 Tachwedd – Y Tîm Golygyddol – rhithiol
- 7 Tachwedd – Cyfarfod y Cyngor – rhithiol
- 11 Tachwedd – Y Tîm Golygyddol – rhithiol
- 20 Tachwedd – Cyfarfod gyda BDI ynghylch system aelodaeth eR2 – rhithiol
- 3 Rhagfyr – Pwyllgor Dysgu a Datblygu – rhithiol
- 4 Rhagfyr – Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr) – rhithiol
- 9 Rhagfyr – Y Tîm Digwyddiadau – rhithiol

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol yn 2020:

Lynda Christie (L.C.), Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Caroline Mullinex (C.M.), Wally Shaw (W.S.)

6 Mawrth – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Rhithiol (W.S. a J.B.)

20 Mawrth – CONBA: Rhithiol (J.B. a J.S.)

2 Ebrill – CONBA: Rhithiol (JB a JS)

3 Ebrill – Panel Ymgynghorol NDB: rhithiol (CM)

18 Mehefin – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Rhithiol (W.S. a J.B.)

10 Medi – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Rhithiol (W.S.)

12 Tachwedd – Gweithlu Peillwyr Llywodraeth Cymru: Rhithiol (L.C.)

3 Rhagfyr – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Rhithiol (J.B. a W.S.)

ADRODDIADAU

Adroddiad y Trysorydd Blwyddyn Ariannol 2020

Cafwyd colled bach eleni o £788 yn erbyn y gwarged o £276 yn y gyllideb.

Cafwyd costau ychwanegol wrth sefydlu'r cyfleuster i redeg cyfarfodydd a gweminarau ar-lein, ond talwyd i raddau helaeth am y rhain drwy gostau llawer is am gyfarfodydd wrth i gyfarfodydd symud ar-lein gan ddefnyddio'r cyfleuster newydd.

Aelodaeth – Roedd 33 yn rhagor o Aelod-Gymdeithasau, hefyd roedd 3 yn rhagor o aelodau unigol.

Gwenynwyr Cymru – Roedd llawer mwy o gostau eleni oherwydd cynnydd o 5% mewn prisiau ond hefyd drwy gynydd yn yr hysbysebion a roddwyd. Roedd costau ychwanegol (£540) i dalu am olygydd i alluogi rhifyn yr hydref i gael ei gyhoeddi yn dilyn marwolaeth Nigel Dailey.

Confensiwn Cymru – Bu rhai costau cyn penderfynu canslo'r confensiwn eleni, hysbysebu ac argraffu'r rhaglen yn £818, bydd blaendal am lety o £85 yn Neuadd Henllan yn cael ei ad-dalu yn 2022. Cadwyd nawdd BDi i'w ddefnyddio yn erbyn costau siaradwyr yn 2021 gyda sêl bendith BDi.

Arholiadau – Ni chynhaliwyd arholiadau yn 2020, bu rhai costau postio wrth anfon tystysgrifau o'r flwyddyn flaenorol.

Prosiectau arbennig – Ailargraffwyd dau lyfryn eleni a llyfryn wedi'i ddiwygio ar Fwydo Gwenyn. Ni chafwyd costau IMYB disgwyliedig oherwydd i'r digwyddiad gael ei ganslo.

Dysgu a Datblygu (L&D) – yn cynnwys Adroddiad yr Ysgrifennydd Arholiadau

Er bod 2020 yn bopeth ond normal, mae tipyn go lew wedi'i gyflawni mewn gwirionedd.

Cyfarfodydd

Mae'r is-bwyllgor L&D wedi cynnal cyfarfodydd chwarterol. Ymunodd Emma Davies (fel Swyddog Ysgolion) a Richard Petts (fel Swyddog IMYB) â'r pwyllgor L&D a gwelir rhestr gyflawn o'i aelodau isod. Ar hyn o bryd, mae Jenny Shaw a Caroline Mullinex yn gwneud y dyletswyddau ysgrifenyddol o fewn L&D ond bydd cyfansoddiad y pwyllgor yn cael ei adolygu a'i ehangu os ac fel bydd angen yn y dyfodol.

Caroline Mullinex (Cadeirydd y Pwyllgor)

Jenny Shaw

Wally Shaw

Nicola Oulton

Trisha Marlow

Richard Petts

Lynfa Davies

Emma Davies

Arholiadau ac Asesiadau

Ni chynhaliwyd arholiadau ysgrifenedig yn 2020, felly mae rhan ysgrifennydd arholiadau'r adroddiad hwn ychydig yn fyrrach nag arfer.

Fodd bynnag, mae'n eglur bod rhai ymgeiswyr wedi gwneud defnydd da o'r cyfnod clo gan fod tystiolaeth o nifer o ymgeiswyr yn sefyll mwy nag un modiwl yn y gwanwyn. Mae niferoedd ceisiadau am fodiwlau yng Nghymru yn dal i godi ac mae'r symud i arholiadau ar-lein gyda goruchwyllo o hirbell yn golygu bod modd ailgychwyn arholiadau eto ar ôl blwyddyn o fwllch. Mae mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr (y rhai newydd a'r rhai y trosglwyddwyd eu cofrestriadau o 2020) yn awyddus i roi cynnig ar arholiadau ar-lein ond mae'n gysur gwybod bod BBKA yn bwriadu cynnal arholiadau ysgrifenedig, confensiynol, ym mis Tachwedd (os bydd cyfyngiadau Covid yn caniatáu).

Hefyd mae grŵp astudio rhithiol peilot (ar gyfer Modiwl 2) ar y gweill er mwyn awgrymu model y bydd grwpiau eraill eisiau ei ddilyn, o bosibl. Mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn golygu bod mwy o gofrestrïadau am fodiwlau yn y dyfodol.

Mae dileu'r gofyniad y llynedd fod ymgeiswyr modiwlau fod wedi pasio'r Asesiad Sylfaenol o leiaf wedi golygu nad yw'r rhai sy'n dymuno astudio modiwlau wedi cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd eu bod yn methu gwneud eu Hasesiad Sylfaenol. Ni ddigwyddodd unrhyw asesiadau ymarferol yn 2020 a bydd y pwyllgor L&D yn ystyried Asesiadau Sylfaenol CGC, er mwyn penderfynu a fydd hi'n bosibl ailddechrau'r rhain ai peidio, pan mae'n cwrdd ddechrau mis Mawrth.

Pan fyddwn ni'n gallu ailddechrau Asesiadau Sylfaenol, bydd cefnogaeth cymdeithasau lleol wrth annog eu haelodau i roi cynnig arni yn werthfawr.

Adolygiad Dysgu a Datblygu 2019

Yn 2019, gwnaed adolygiad i geisio gweld pa gymorth y gallai CGC ei roi i'r cymdeithasau lleol, e.e. yn ymwneud â rhoi hyfforddiant. Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau a achosodd hyn wedi newid a gyrru ein hymateb i ganlyniadau'r arolwg, ond mae'r arolwg yn dal i fod yn eitem barhaol ar yr agenda a bydd y pwyllgor L&D yn parhau i weld sut mae'n bosibl rhoi cymorth.

Mae'r eitemau â phwyntiau bwled isod yn nodi'r meysydd y mae L&D wedi bod yn ymwneud â nhw:

- *Cwrs Paratoi Hwsmonaeth Gyffredinol*
Cyflwynwyd elfen theori'r cwrs hwn yn llwyddiannus yng Ngregynog cyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth. Mae CGC yn ddiolchgar i Lynfa Davies a Marin Anastasov, (y ddwy yn NDBs) a roddodd yr hyfforddiant, ac i Gymdeithas Gwenynwyr Sir Drefaldwyn a gynhaliodd y digwyddiad. Mae elfen ymarferol y cwrs yn dal i fod heb ei wneud (oherwydd cyfyngiadau Covid) ond caiff ei haildrefnu pan fydd hi'n ddiogel i hyn fynd ymlaen.
- *Grŵp Astudio Rhithiol*
Fel y soniwyd yn barod, y nod yw rhannu model y bydd grwpiau eraill eisiau ei ddilyn, o bosibl.
- *Llyfryn Bwydo Gwenyn*

Cyhoeddwyd y diweddaraf yn y gyfres o lyfrynnau CGC, wedi'i awduro gan Wally, a'i ddosbarthu i aelodau. Mae'r llyfrynnau hyn yn cael derbyniad da iawn bob amser, ac nid oedd hwn yn eithriad. Denodd darllenwyr y tu hwnt i CGC drwy ddolen ar y wefan. Mae gwaith cynllunio ar y gweill i gyhoeddi llyfryn arall yn 2021 a chaiff rhagor o fanylion eu rhannu cyn gynted â phosibl.

- Gweminarau

Oherwydd penderfyniad CGC i brynu trwyddedau Cyfarfodydd a Gweminarau GoTo, roedd modd parhau â'r gweminarau a gyflwynwyd yn ystod cyfnod cychwynol am ddim. Roedd y digwyddiadau hyn yn hynod o boblogaidd, ac er bod llw o weminarau ar bynciau cysylltiedig â gwenyna erbyn hyn, roedd CGC gyda'r cyntaf i roi cynnig ar y byd rhithiol hwn.

Rydym yn dra diolchgar i bawb a roddodd gyflwyniadau yn y gweminarau hyn, bod o'r tu mewn neu'r tu allan i CGC, ac i bawb sydd wedi cefnogi'r gwaith trefnu a chyflwyno.

Rydym yn gwybod ei bod hi'n anodd i rai aelodau gymryd rhan, efallai oherwydd eu bod mewn man heb Fand Eang, ac rydyn ni'n cydnabod nad oes dim byd yn disodli digwyddiadau wyneb yn wyneb mewn gwirionedd (er bod cyflwyno digwyddiadau o hirbell mewn gwirionedd wedi bod yn fwy cyfleus, ac felly'n gynhwysol, i lawer). Ond nid yw cyfarfod wyneb yn wyneb wedi bod yn bosibl ers mis Mawrth 2020 ac felly rhoddodd llwyfan GoTo gyfle i ni ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau a digwyddodd hyn ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. (Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd dros 2500 wedi cofrestru mewn gweminarau).

Mae trwydded y gweminarau ar gael hefyd i'w defnyddio gan y cymdeithasau lleol a byddwn yn rhoi cefnogaeth i unrhyw rai sydd eisiau trefnu a chyflwyno eu gweminarau eu hunain. Hefyd gallwn eich helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r rhain y tu hwnt i'ch cymdeithas eich hun er mwyn denu rhagor o fynychwyr. (Yn ogystal mae gan CGC drwydded Vimeo y mae'n bosibl ei defnyddio i rannu recordiadau).

- Cyfarfodydd

Mae trwyddedau cyfarfodydd GoTo, y cynhaliwyd holl gyfarfodydd y pwyllgor Dysgu a Datblygu drwyddynt yn 2020, ar gael hefyd i gymdeithasau lleol eu defnyddio ac, eto, mae croeso mawr i eraill gael gwybod am ein profiad o ddefnyddio'r rhain i'w cefnogi i'w defnyddio.

Rydym wedi dysgu llawer yn 2020 o ran y dechnoleg, ond bydd y wybodaeth a'r profiad rydym wedi'u cael yn ein helpu ni i gefnogi a hwyluso digwyddiadau fel Confensiwn y Gwanwyn a fydd yn digwydd yn rhithiol cyn hir.

- Y Cyfryngau Cymdeithasol

Nawr mae gan CGC dudalen Facebook (@WelshBeekeepersAssociation) a Llif Trydar (@welshbee) ar waith a bydd yn edrych ar lwyfannau eraill (e.e. Instagram) pan fydd amser yn caniatáu.

- Gwefan newydd

Mae'r Pwyllgor Dysgu a datblygu wrth ei fodd o gael cydweithio ag Alison Mason, ein gwfeistr newydd, i ddatblygu cynnwys ar gyfer y wefan newydd y disgwylir iddi lansio'n nes ymlaen eleni.

- *Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru*

Rydym wedi bod yn weithgar yn y Pwyllgor Golygyddol, a ffurfiwyd i sicrhau bod ein cylchgrawn chwarterol yn dal i gael ei gyhoeddi. Roedd rhifyn y Gaeaf yn cynnwys adran i Wenynwyr Ifanc, am y tro cyntaf.

- *Ysgolion*

Mae Emma wedi bod yn allweddol yn trefnu cynnwys ar gyfer adran Gwenynwyr Ifanc y cylchgrawn ac mae hefyd yn gweithio ar gynnwys i'r wefan newydd o dan y pennawd hwn. Mae annog y genhedlaeth newydd o wenynwyr yn hanfodol ac yn rhoi boddhad ond, oherwydd cyfyngiadau Covid, mae'r gweithgarwch gwennyna mewn ysgolion wedi'i dorri'n ôl. Mae Emma yn parhau i ddatblygu cynnig gan CGA i ysgolion drwy brosiect "Everything but the bees".

- *IMYB (International Meeting of Young Beekeepers)*

Roedd hi'n siom deall bod rhaid canslo digwyddiad 2021 yn Slovenia, a ohiriwyd yn wreiddiol o 2020, oherwydd bod effaith y pandemig yn parhau.

Ar ôl cefnogi tîm o Gymru ar gyfer y digwyddiad yn 2019, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Richard i gael tîm ar gyfer digwyddiad 2022 a gynhelir yn Rwsia.

Bydd y wefan newydd yn cynnwys gwybodaeth bellach am IMYB yn yr Adran Gwenynwyr Ifanc.

Os oes gennych chi wenynwyr ifanc yn eich cymdeithas a all fod â diddordeb yn IMYB yn 2022 neu'r tu hwnt, cysylltwch â Richard (imyb@wbka.com) i gael rhagor o wybodaeth.

Crynodeb

Yn ystod blwyddyn heriol, mae llawer wedi'i gyflawni, diolch i waith caled, cefnogaeth, a chyfraniadau pob un o aelodau'r Pwyllgor Dysgu a Datblygu.

Pwyllgor Digwyddiadau:

Oherwydd y pandemig a oedd yn datblygu ym mis Mawrth, penderfynodd y Tîm Rheoli ganslo cynulliad blynyddol 2020 ar 16 Mawrth. Dywedwyd yn brydlon wrth bob masnachwr, siaradwr a chwmni cefnogi cyn i'r aelodaeth ehangach gael gwybod. Gwahoddwyd pob darlithydd i Gynulliad 2021. Roedd rhai'n hapus i ymrwymo dros dro i hyn. Oherwydd difrifoldeb y pandemig ni chynhaliwyd unrhyw un o sioeau Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS), y mae CGC yn eu cefnogi gyda stondinau, felly nid oes dim i'w adrodd.

Drwy gydol 2020 mae CGC wedi ceisio dod o hyd i bobl i ymuno â'r tîm Digwyddiadau drwy hysbysebion ac erthyglau yn Gwenynwyr Cymru. Hyd yma nid oes neb wedi ymateb.

Gwefeistr

Roedd Nigel Dailey yn rheoli pob agwedd ar wefan wbka.com hyd at ei farwolaeth ym mis Medi 2020.

Bu David Kennedy (yr Ysgrifennydd Aelodaeth ar y pryd) yn cynnal y wefan ar ôl hynny a bydd yn helpu gyda'r trosglwyddo i wefan newydd y mae Alison Mason, ein Gwefeistr, yn datblygu.

Oherwydd bod y Confensiwn a digwyddiadau byw yn gyffredinol yn 2020 wedi'u canslo, defnyddiwyd y wefan i roi cyhoeddusrwydd i weminarau a digwyddiadau eraill CGC. Mae ganddi ddolenni i recordiadau o weminarau'r gorffennol.

Mae ystadegau o 1 Medi ymlaen yn dangos i tua 800 o bobl ymweld â wbka.com bob mis. Roedd tua 40% yng Nghymru, 30% mewn mannau eraill yn y DU, ac roedd 12% yn UDA.

Ar ôl yr hafan, yr adrannau yr ymwelwyd â nhw'n bennaf oedd Gweminarau, Dysgu a Datblygu, Llyfrgell a rhestr Cymdeithasau.

Nid yw'r wefan Gymraeg cymdeithasgwenynwrycymru.co.uk yn cael ei chynnal bellach a bydd yn cau ym mis Chwefror 2021 pan fydd y drwydded letya bresennol yn dod i ben. Bydd y cynnwys Gymraeg yn cael ei osod yn y wefan newydd.

Cynulliad Blynyddol Rhithiol Gan fod Cynulliad CGC yn symud ar-lein yn 2021, mae gwaith ar y gweill gyda'r timau Digwyddiadau a Dysgu a Datblygu, i gyflwyno'r cynnwys byw gan ddefnyddio dolenni o dudalennau gwe y gellir eu defnyddio ar wefan bresennol CGC neu ar y wefan newydd os bydd hi'n barod.

Hefyd bydd Neuadd Fasnachu rithiol gyda dolenni i wefannau masnachu, fideos masnachu, cysylltiadau a chynigion ar gyfer y Cynulliad i ymwelwyr edrych arnyn nhw ar-lein. Gobeithio y bydd yn cynnig ffordd newydd o ymgysylltu â'r Confensiwn yn y cyfnod heriol hwn.

Golygydd

Estynnwyd y Tîm Golygyddol i ffurfio grŵp golygyddol newydd yn cynnwys 6 ymddiriedolwr a swyddog ar ôl colli ein Golygydd yn drist iawn yng nghanol y flwyddyn. Roedd Nigel wedi trefnu cynnwys cylchgrawn yr Hydref yn barod, a gyda help y grŵp Golygyddol a Claire Waring o Buzzwords, llwyddon ni i gael y rhifyn hwn wedi'i argraffu ac allan i'r aelodau. Ar ôl hysbysebu am Olygydd newydd, rydym wedi recriwtio dau wirfoddolwr arall i'r grŵp Golygyddol i helpu gyda'r cysodi a'r cynnwys ar gyfer cylchgronau'r dyfodol.

Swyddogaeth bwysig y grŵp Golygyddol yw amlygu tueddiadau ac eitemau a themâu newyddion priodol er mwyn cadw cynnwys y cylchgrawn mor gyfredol ag sy'n bosibl, tra caiff egwyddorion CGC eu cynnal ar yr un pryd. Mae ychydig o newidiadau wedi bod i arddull a gosodiad y cylchgrawn a hefyd ychwanegwyd tudalennau ychwanegol ar gyfer cyfraniadau gwenynwyr iau. Mae'r cylchgrawn yn rhoi cyfle i wenynwyr leisio eu syniadau a'u safbwyntiau drwy erthyglau a llythyrau. Rydym yn croesawu cyfraniadau ac yn edrych ymlaen at eu derbyn yn y dyfodol.

Swyddogion Cyhoeddusrwydd a Chydlyn Lladrata:

Bu'r swyddi hyn yn wag o hyd drwy gydol 2020. Mae'r tasgau a roddwyd i'r ddwy swydd hyn wedi'u cynnwys yn rolau swyddogion eraill. Dylech anfon unrhyw hysbysiadau perthnasol, yn y dyfodol, yn y lle cyntaf at yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar secretary@wbka.com.

Swyddog Technegol

Gwasanaeth Archwilio Gwenyn – Mae CGC wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Gwenyn. Cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr gan yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol (Frank Gellatly) yn rhifyn y gaeaf o Gwenynwyr Cymru a does dim byd y gallaf ei ychwanegu at hwnnw. Er gwaethaf y problemau a achoswyd gan Covid-19, mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio'n ddirwystr.

Problemau gyda Breninesau - Rwyf wedi clywed rhai adroddiadau am wenynwyr yn cael problemau gyda chyplu breninesau (cytrefi heb fod yn cael breninesau newydd) ond ychydig iawn o problemau rydym ni ein hunain wedi'u cael. Yn sicr nid oedd y tywydd ym mis Gorffennaf yn ffafriol i gyplu breninesau ac ni wyddom eto a fydd y breninesau a gyplwyd yn ystod y cyfnod hwn yn goroesi eu gaeaf cyntaf a gwneud breninesau tymor hir da ai peidio. Yn bersonol rwy'n credu bod problemau gyda breninesau nid yn gymaint oherwydd y tywydd ond oherwydd heintiau gyda'r firws adenydd wedi'i aflunio (*deformed wing virus* (DWV)) sydd wedi'i gadarnhau bellach fel clefyd a drosglwyddir yn rhywiol.

Chwilen Fach y Cwch (*Small Hive Beetle*, SHB) Mae adroddiad llawn o'r datblygiadau gyda'r chwilen hon yn Ne'r Eidal yn ymddangos Adroddiad Blynyddol Frank Gellatly yn Gwenynwyr Cymru.

Y Gacynen Asiaidd (*Asian Hornet*, AH) Eto, mae adroddiad llawn ar weithgarwch eleni gyda'r gacynen hon yn adroddiad Frank. Ym mis Medi rhoddodd Frank Weminar CGC llawn gwybodaeth am y Gacynen Asiaidd. Nid oes tystiolaeth o hyd bod nythod o AH wedi'u sefydlu yn unman yn y DU ond, fel gwenynwyr, mae angen inni fod yn wylidwyr iawn gan y gallai hi ymddangos bron yn unman.

Cyfarfodydd Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF) – Unwaith eto, mae tipyn go lew o'r drafodaeth yn BHAF eleni wedi bod am BREXIT. Nawr bod hyn bron â digwydd, efallai y cawn wybodaeth fwy eglur ynghylch sut bydd hyn yn effeithio ar wenyn. Bu awgrym y bydd gwenyn yn y DU yn dal i allu hawlio arian o Gronfa Gwenyn'r Undeb Ewropeaidd ond nid oes gen i syniad pam neu sut gallai hyn weithio. Rwyf wedi gweld ffigurau'n ymwneud â nifer y breninesau a fewnforiwyd i'r DU yn 2020 ond ni allaf gofio lle gwelais y wybodaeth hon. Nid yw hi'n ymddangos bod data wedi'u cyhoeddi, felly rhaid bod hyn wedi digwydd mewn cyfarfod BHAF. Yn ôl yr hyn a gofiais, roedd y mewnforyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol gyda'r Eidal yn brif ffynhonnell – nad yw'n newyddion da, mae'n debyg. Newyddion gwell yw nad yw hi bellach yn gyfreithlon i fewnforio cytrefi neu becynnau o wenyn mêl ac mae hyn yn lleihau'n fawr y perygl gan Chwilen fach y cwch. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o fasnachu gyda'r UE, ni phenderfynwyd y manylion ynghylch rheoli ac archwilio mewnforyn yn y dyfodol ond, yn y cyfamser, mae'n ymddangos bod bioddiogelwch digonol yn ei le.

Ailadroddwyd y Cyfrif Cychod Blynyddol eleni ond nid oedd data am y canlyniad ar gael wrth ysgrifennu hyn.

Derbyniwyd Cynllun Iechyd Gwenyn II ac mae bellach yn cael ei roi ar waith.

Lefelau Varroa 2020 – Nid yw lefelau Varroa yn ymddangos yn arbennig o uchel eleni, efallai oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cytrefi wedi dod drwy'r gaeaf yn eithaf bach a chymerodd hi dipyn o amser i faint y cytrefi gynyddu. Daeth y gwenyn segur (*drones*) i'r amlwg yn weddol ddiweddar. Yn wahanol i 2019, roedd lefelau heidio yn isel yn 2020, byddai heidio wedi tueddu i wneud i lefelau Varroa fod yn uchel felly mae manteision ac anfanteision.

Cyhoeddiadau Technegol CGC - Dosbarthwyd 2^{ll} argraffiad o **Canllaw'r Wenynfa i Reoli Heidiau** i bob aelod CGC gyda rhifyn y gwanwyn o Gwenynwyr Cymru. Dosbarthwyd llyfryn newydd **Bwydo Gwenyn** i bob aelod gyda rhifyn hydref Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru. Gwaetha'r modd, oherwydd salwch ein Golygydd (Nigel Dailey) a'i farwolaeth wedyn, bu oedi cyn gwneud hyn ac felly nid oedd o

lawer o help i wenynwyr eleni (roedd y bwydo wedi'i wneud erbyn i'r llyfryn fod yn eu dwylo nhw). Fel arfer mae cyflenwad o bob llyfryn ar gael yng Nghyfarfodydd y Cyngor fel bod modd i gymdeithasau gael digon o stoc a rhoi set lawn i wenynwyr newydd. Os, fel sy'n edrych yn debygol iawn nawr, na fyddwn yn cwrdd wyneb yn wyneb yn fuan, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gyflenwi cymdeithasau'n uniongyrchol.

Yswiriant Iechyd a Diogelwch.

Mae CGC wedi'i chyfyngu braidd o ran ei dewis o froceriaid sy'n barod i roi dyfynbris am ein mathau o yswiriant. Y rheswm a roddwyd y llynedd oedd na allan nhw gystadlu â'n prisiau presennol. Oherwydd hyn rydym wedi aros gyda'r un Brocer – Coversure Insurance.

Anfonwyd copïau o'r polisïau i bob un o Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Noder eleni eto bod yr yswiriwr wedi pwysleisio bod angen i bob cymdeithas y mae'r yswiriant yn berthnasol iddi amddiffyn y gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ei rhan. Er mwyn dangos tystiolaeth o hyn dylai pob Cymdeithas wneud asesiadau risg syml fel darparodd John Pilgrim, ein Swyddog Iechyd a Diogelwch, yn y gorffennol. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r prif risgiau sydd gan weithgareddau gwenyna a chynnal a chadw gwenynfeydd Cymdeithasau. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn rhai risg isel ond dylid rhoi sylw penodol i'r gweithgareddau hynny lle mae mwy o risg, fel cynnal a chadw tiroedd â pheiriannau neu reoli plâu gan ddefnyddio sylweddau niweidiol fel asidau ocsalig neu fformig. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr sy'n gweithio ar weithgareddau Cymdeithasau gael yr offer diogelu cywir a dylent weithio i'r arferion gweithio diogel a nodwyd gan eich asesiadau risg. Gallai methu cymryd y camau gweithredu syml hyn olygu bod yr yswiriwr yn gwrthod setlo hawliad.

Rydym wedi awgrymu o'r blaen eich bod yn llunio Polisi Diogelwch ar gyfer eich Cymdeithas y byddai'n bosibl ei fodelu ar un CGC a bod aelod o Bwyllgor/Bwrdd y Gymdeithas yn cael cyfrifoldeb dros sicrhau bod ei ofynion yn cael ei ddilyn.

Unwaith eto, ein bwriad yw gofyn am gopïau cyfredol o bolisïau ac asesiadau risg syml Cymdeithasau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Prif feysydd polisïau wedi'u hariannu drwy CGC yw Atebolrwydd Cyfunol sy'n rhoi yswiriant am weithgareddau gwenyna, atebolrwydd yn codi o gynnyrch y cwch ac atebolrwydd cyflogwyr. Mae polisi arall yn rhoi ystyriant ar gyfer Aelodau/Swyddogion Pwyllgorau/Grwpiau Rheoli/Byrddau Cymdeithasau ar gyfer risgiau sy'n codi'n benodol o'u gweithgareddau rheoli.

O ran Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol, braf yw gallu dweud bod John Pilgrim a gafodd Covid-19 ddiwedd 2020 a threulio ychydig o amser yn yr ystyby bellach wedi gwella ac ar ôl cyfnod byr yn ymadfer, mae wedi dychwelyd adref, er ei fod ychydig yn wan. Mae wedi gofyn imi eich atgoffa pa mor bwysig yw cadw'n ddiogel, dilyn canllawiau'r Senedd ac mae'n argymhell ein bod yn gwisgo lefel FFP 3 o fasg diogelu sy'n diogelu'r person sy'n ei wisgo yn hytrach na phawb arall yn unig.

BHAF – Cynllun Gwenyn Iach 2030

Mae cam Gweithredu Cynllun Gwenyn Iach 2030 bellach ar waith a chynhelir 3^{ydd} cyfarfod y Grŵp Gweithredu yn y flwyddyn newydd. Bwriad y cynllun hwn yw nodi ac annog mentrau i gefnogi gwenyn ac i ddiogelu eu hiechyd yn erbyn clefydau a phlâu. Mae'n dilyn o HBP 2020 yr oedd Cymru a CGC yn medru nodi camau penodol iddo tuag at gyflawni'r amcanion hyn. Un o'r problemau a nodwyd yn y Cynllun Gwenyn Iach blaenorol oedd sut i fesur ei lwyddiant ac i beth y gallwn briodoli'r llywyddiant hwnnw. Dydyn ni ddim fel petaen ni wedi dod yn nes at ddatrys y broblem hon yn y

cyfarfodydd cychwynnol. Mae'n galonogol, fodd bynnag, fod y broblem wedi'i hadnabod, sef y cam cyntaf i ymdrin â hi, mae'n siŵr.

Mae CGC a Llywodraeth Cymru yn cynrychioli Cymru ar y grŵp hwn.

Y Gacynen Asiaidd

Mae'n galonidid rhoi gwybod bod gennym bellach Dimau'r Gacynen Asiaidd penodol ar gyfer Cymdeithasau yng Nghymru. Mae manylion cysylltu'r Cydlynwyr ar gyfer y timau hyn ar wefan CGC.

Hoffai CGC ddiolch i bob un sydd wedi bodloni i ymgymryd â'r rôl hon.

Nodir disgwyliadau'r Timau'n eglur ar Beebase ond byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu ymagwedd wedi'i chydlynw ledled Cymru sy'n adlewyrchu'r rhai a restrwyd. Er mai un achos/nyth o'r Gacynen Asiaidd a nodwyd ym mis Medi 2020 (Gosport), ni ddylem ystyried o gwbl fod y bygythiad yn lleihau ac mae angen inni barhau i fod yn wylidwrus.

Mae'n ddiddorol nodi bod yr RSPB wedi adnabod y bygythiad i fywyd gwylt y DU gan y Gacynen Asiaidd ac mae wedi cyhoeddi manylion sut i'w hadnabod a'r camau gweithredu angenrheidiol.

Archif: Mae gwaith ar y gweill i ddiweddarw Archif CGC.

ADRODDIADAU A ATODWYD

Atodiad 1: Aelodaeth

Atodiad 2: Cyfrifon Blwyddyn Ariannol 2021

Atodiad 3: Cyllideb Diwedd Blwyddyn 2020 a 2021

Ariannol: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddynt gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod:

Enw llawn: Lynda Christie

Safle: Cadeirydd

Dyddiad: